

Tasg 1

Cloddio Glo

1. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Roedd y stryd lle roedd y glöwr yn chwarae'n brysur iawn.		
Roedd cleisiau ar wyneb y glöwr.		
Roedd y glöwr yn cofio pan oedd llawer o bobl yn arfer mynd i'r capel.		
Doedd neb yn arfer mynd i'r llyfrgell.		
Ychydig iawn o bobl sy'n mynd i'r capel heddiw.		
Mae Tomos ac Alun yn dal yn fyw.		
Dim ond atgofion sydd gan yr hen löwr nawr.		

2. Sut mae'r pwll wedi cael effaith gorfforol ar y glöwr?
3. Sut mae bywyd yn y cwm wedi newid ers i'r pwll gau? Gwnewch restr o bwyntiau.
4. Pa fath o ddarlun y mae Dafydd Iwan yn ei greu o'r gymdeithas yn y cwm pan oedd y pwll glo ar agor?
Ydy'r darlun hwnnw'n un cyflawn, yn eich barn chi? Oedd ochr arall, lai dymunol, i waith y pwll glo?
5. Beth yw 'tenor' a 'bas'?
At ba weithgaredd cerddorol yn y cwm y mae Dafydd Iwan yn cyfeirio wrth sôn am 'tenor' a 'bas'?
Pa weithgaredd cerddorol arall sy'n gysylltiedig â chymoedd De Cymru, ac ag ardaloedd diwydiannol yng ngogledd Cymru hefyd, fel ardal y llechi yng ngogledd orllewin Cymru ac ardal y maes glo yng ngogledd ddwyrain Cymru?
6. Chwiliwch am yr ymadrodd yn y gân sy'n golygu 'yn enwog a llwyddiannus iawn'.
Defnyddiwch yr ymadrodd hwn yn eich brawddeg eich hun.

7. Edrychwch ar ffurf y penillion – beth yw’r patrwm o ran mydr ac odl?
8. Edrychwch ar yr enwau lluosog ‘creithiau’ a ‘lleisiau’ yn y gân. Beth yw’r enwau unigol?
Sylwch ar y newid sy’n digwydd i’r llafariad: **ai > ei**

Llenwch y tabl isod lle mae’r un newid o’r enwau unigol i’r enwau lluosog. Ond byddwch yn ofalus gyda’r terfyniadau, gan eu bod yn amrywio: **-au, -ion, -iaid, -oedd, -iadau**).

Enw unigol	Enw lluosog
gair	
blaidd	
praidd	
craig	
haig	
anifail	
iaith	
adfail	
ffair	
dyfais	
mantais	
anfantais	
clais	
pleidlais	
gwaith	
cytsain	
taith	
ffaith	

Dewiswch **bum enw lluosog** o’r tabl a’u defnyddio yn eich brawddegau eich hun.

9. **Trafod:** Sut mae bywyd pobl **eich ardal chi** wedi newid dros y blynyddoedd? Meddyliwch am y cyfleoedd sydd ar gael o ran gwaith a hamdden. Ydy pobl yn gallu gwneud popeth yn yr ardal leol erbyn hyn? Efallai y gallech wneud peth gwaith ymchwil drwy holi aelodau o'ch teulu, os yw'ch teulu'n dod o'r ardal, neu holi cymdogion.

10. **Ysgrifennu:** Trowch 'Cân y Glöwr' yn ymson. Dechreuwch fel hyn: 'Bob tro rwy'n cerdded i lawr heol y cwm, rwy'n cofio...'